# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

## Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog 9fed Chwefror 2026
## Festri Capel Garnfadryn

Presennol: Terry Hughes, Henri Hughes, Gareth Jones, Catrin Williams, Alan Hughes, Sioned Pearson, Dafydd Williams, Alyn Williams, John Davies, Deio Williams, Sian Parri, Chris Brady

Ymddiheuriadau:

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb.

2. Derbynwyd y cyfnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Mynwent Newydd Tudweiliog-** Eglurodd y Clerc iddi hi a'r Cadeirydd dderbyn gwahoddiad i gyfarfod pwyllgor mynwent Tudweiliog nos Iau diwethaf. Yn y cyfarfod yma eglurodd y Clerc wrth y pwyllgor beth yw'r sefyllfa gyda'r mynwent newydd, gan ddatgan y pris a ofynwyd am y tir. Roedd teimlad cryf y dylid adrodd i'r gymuned beth sy'n digwydd a penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod agored yn y Lion yn yr wythnosau nesaf. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o roi gofal a chronfa ariannol y fynwent bresenol drosodd i'r Cyngor Cymuned sydd yn ymddiriedolwyr arni. Awgrymwyd y dylai'r Clerc gysylltu a cyfreithiwyr Cyngor Gwynedd i geisio arweiniad.

      Cytunodd y Cyngorwyr Cymuned y dylid cynnal cyfarfod cyhoeddus, ond cyn hynny y dylid cael amcan o gost y gwaith contractio fydd angen- bydd angen derbyn 'spec' manwl gan y cwmni Hayden Williams (a wnaeth y planiau ar gyfer y cais

cymllunio), bydd y Clerc yn cysylltu i ofyn am y ddogfen yma. Yna bydd y clerc yn rhoi cais hysbysiadau yn y papur bro i gwmniau roi pris ar y gwaith. Wedi derbyn hyn gellir rhoi adroddiad manwyl i'r gymuned o wir gostau creu'r fynwent.
Cytunodd y Cynghorwyr Cymuned i'r Clerc geisio barn gyfreithiol ynglyn a'r ffordd ymlaen o drosglwyddo cyfrifoldeb y mynwent presennol.
Derbynwyd ebost gan Hugh O'Donnell yn cadarnhau y pris a bod dwy ffordd ymlaen - prynu'r tir yn syth, neu rhannu'r costau dros y blynyddoedd - bydd y Clerc yn mynd nol ato i ofyn am ganllawiau manylach o sut byddai talu dros gyfnod yn gweithio.

**b.** **Hysbysfwrdd** - Addawodd Chris y bydd yr hysbysfwrdd i fyny yn y dyddiau nesaf.
**c.** **Polisi Gosod Tai** – Doedd dim diweddariad
**ch.** **Archwyliad Allanol –** Derbynwyd adroddiad fod yr archwyliad wedi ei gwblhau, bydd y Clerc yn gweithio ar yr awgrymiadau a roddwyd.
d. **Ymddiswyddiad y Clerc-** Gan nad oes neb wedi ymgeisio am y Swydd, penderfynnodd y Clerc aros i gwblhau archwyliad eleni.
Dd. **Cyflwr y Ffordd o Ganolfan Llaniestyn i Glan Baeno -** dim ymateb
e. **Safle Parcio Garnfadryn -** Derbywyd ymateb gan yr adran traffic mai Cyngor Cymuned sy'n berchen ar y safle. Gofynnodd y Clerc am dystiolaeth, awgrymwyd y dylid cysylltu a Gofrestrfa Tir.
F. **Twll yn y ffordd ger Cae Garw -** dim ymateb

4. Gohebiaeth:

**a.** **Cyflog y Clerc -** Gofynnodd y Clerc am hawl i godi oriau misol o 10awr y mis i 15 mis y mis, cytunwyd ar hyn Penderfynnwyd hefyd codi cyflog y Clerc i £15.00 yr awr a hynny yn weithredol yn syth.
**b.** **Bysus Nos –** Daeth cais gan Cyngor Tref Pwllheli i gefnogi eu hymgyrch i gynyddu oriau teithio bysus i ac allan o Bwllheli i'r hyn yr oedd cyn cyfnod COVID. Penderfynwyd y bydd Cyngor Cymuned Tudweiliog yn cefnogi.

c. **Rhannu'r praesept:**
**Penderfynwyd rhannu'r praesept fel a ganlyn:**
**Mynwent Dinas - £300.00**
**Mynwentydd Bro Madryn - £300.00**
**Dinasyddion - £300.00**
**Canolfan Llaniestyn - £300.00**
**Canolfan Llangwnnadl - £300.00**
**Cor Cantorion Llyn - £200.00**
**Diffib Cwt Tatws - £500.00**

5. **Unrhyw fater arall**: Doedd dim i'w drafod.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Lun 9fed Mawrth am 7.30yh**
**Festri Capel Tudweiliog.**